## DATGANIADAU BARN YSGRIFENEDIG / WRITTEN STATEMENTS OF OPINION

## A GYFLWYNWYD / TABLED ON 26/04/2004

R Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
R Signifies the Member has declared an interest

## OPIN-2004-0021 Dyfodol Airbus ym Mhorthladd Mostyn / The Future of Airbus at the Port of Mostyn

**Codwyd gan / Raised By:** Carl Sargeant.

**Tanysgrifwyr / Subscribers:**
Janet Davies 30/04/2004
Val Lloyd 29/04/2004
Ann Jones 27/04/2004
Mark Isherwood 27/04/2004
Sandy Mewies 27/04/2004

Dyfodol Airbus ym Mhorthladd Mostyn

Mae'r Cynulliad yn cydnabod y rôl bwysig sydd gan waith cynhyrchu Airbus ym Mrychdyn a Phorthladd Mostyn o ran sicrhau llwyddiant economi Cymru at y dyfodol.

Credwn y bydd unrhyw oedi diangen gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a chyrff rheoleiddiol eraill o ran rhoi caniatâd treillio ym Mhorthladd Mostyn yn cael effaith negyddol ar Airbus a diwydiannau eraill yn y Gogledd-ddwyrain. Credwn fod hyn yn annerbyniol.

O ganlyniad, credwn ei bod yn hollbwysig fod yr holl gyrff priodol yn caniatáu treillio ym Mhorthladd Mostyn cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl, a hynny fel mater sydd o'r budd mwyaf i'r cyhoedd.

The Future of Airbus at the Port of Mostyn

The Assembly recognises the important role the Airbus Manufacturing Plant at Broughton and the Port of Mostyn plays in the future success of the Welsh economy.

We believe that any unnecessary delay by the Environment Agency Wales and other regulatory bodies in authorising dredging consent at the Port of Mostyn will have a negative impact upon Airbus and other industries in North East Wales. We believe this is unacceptable.

We believe it is vitally important that all the appropriate bodies allow dredging at the Port of Mostyn as a matter of overriding public interest as soon as practicable.

## Gwelliannau / Amendments

**A01 Raised by:** Janet Ryder, Alun Ffred Jones and Helen Mary Jones 28 April 2004

**Tanysgrifwyr / Subscribers:**
Rhodri Glyn Thomas 06/05/2004
Elin Jones 05/05/2004

*Mae'r Cynulliad yn cydnabod pwysigrwydd Ffatri Weithgynhyrchu Airbus i lwyddiant economi Cymru yn y dyfodol.*

*Er mwyn diogelu contract Airways, dylai ymchwiliad trylwyr o'r opsiynau eraill gael ei gynnal gan y tri chorff rheoleiddio, er mwyn sicrhau bod y penderfyniad terfynol yn gyson â deddfwriaeth Ewropeaidd ac na ellir ei herio yn y llysoedd.*

*Rydym yn nodi bod y set gyntaf o adenydd wedi cael ei hanfon ar long gyda'r penllanw o Borthladd Mostyn ar 10 Ebrill. Gobeithio y gellir dod o hyd i ateb cynaliadwy cyn gynted â phosibl, sy'n caniatáu i'r adennydd gael eu trosglwyddo'n llwyddiannus ac sy'n amddiffyn y bywyd gwyllt dan sylw sydd o bwys rhyngwladol.*

*The Assembly recognises the important role the Airbus Manufacturing Plant plays in the future success of the Welsh economy.*

*To protect the Airways contract, a thorough investigation of alternatives should be undertaken by the three regulators, so that the final decision is consistent with European legislation and not open to legal challenge.*

*We note that the first wing-set was successfully shipped at high tide from Mostyn Port on 10 April. We hope that a sustainable solution can be found as soon as possible, that allows the wings to be successfully transferred and protects the internationally important wildlife interests involved.*